Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Dyddiad / Date: 01/12/2023

E-bost / E-mail: questionECS@carmarthenshire.gov.uk

Mae'r Nadolig – er pwysau'r arholiadau i nifer – yn gyfle i'n hysgolion ni gynnig llawer o brofiadau gwahanol i'w disgyblion. Gobeithio'ch bod chi'n dal i gofio cyffro a budd rhannu profiadau cymdeithasol gyda ffrindiau.
Dyma'r cyfnod sy'n wynebu'ch plant chi yn yr ysgol yn ystod yr wythnosau nesaf.
Rydyn ni'n sylweddoli bod y Nadolig yn amser prysur iawn i deuluoedd a'i fod yn gallu rhoi tipyn o bwysau ar ysgwyddau pawb.
Ar adegau fel rhain mae presenoldeb disgybl yn yr ysgol yn gallu dioddef. Os oes problemau gyda chi sy'n achosi i'ch plentyn fod yn absennol, does dim rhaid i chi eu hwynebu nhw ar eich pen eich hun. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin, drwy'ch ysgol leol, yn gallu'ch cefnogi mewn sawl ffordd ymarferol.
Ein nod bob amser yw gweld disgyblion Sir Gâr yn elwa'n gymdeithasol ac yn academaidd o fod yn rhan o fywyd ysgol. Dim ond gyda chefnogaeth rhiant/gwarcheidwad y gallwn ni wneud hyn.
Cydweithio i sicrhau bod disgybl yn mynd i'r ysgol yw'r cam cyntaf wrth helpu'ch plentyn i fagu sgiliau bywyd sy'n para oes.
Diolch.

Christmas – despite its exam pressures for many - is an opportunity for our schools to offer pupils many different experiences. Hopefully you still remember the excitement and benefits of sharing social experiences with friends.
That time is coming up for your own children at school during the next few weeks.
We do realise that Christmas is also a very busy time for families that can bring many pressures. At times like these attendance at school can sometimes suffer. If you have difficulties which cause your child to be absent from school, you don't have to face them on your own. Carmarthenshire County Council, through your local school can support you in many practical ways.
Our goal always, is to see Carmarthenshire's pupils benefit socially and academically from being part of school life. We can only do this with a parent/guardian's support. Working together to make sure a pupil attends school is the first step to help your child develop life skills that last forever.
Thank you.

Aneirin Thomas

Pennaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant,
Yr Adran Addysg a Gwasanaethau Plant, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin, SA31 1LE

Head of Education and Inclusion Services,
Education and Children's Services Department, 3 Spilman Street, Carmarthen, SA31 1LE